

CEIDWADAETH: GWEITHGAREDDAU

Cwestiynau traethawd (A01, A02, A03)

Lluniwch draethodau llawn sy'n trafod y cwestiynau isod.

1	Cloriannwch yn feirniadol yr honiad bod ceidwadaeth yn ideoleg sydd wastad yn rhoi blaenoriaeth i les dosbarthiadau uwch cymdeithas.
2	I ba raddau y mae pob ceidwadwr yn rhoi pragmatiaeth uwchben unrhyw egwyddor sylfaenol?
3	'Yr ydym i gyd yn hunanol, barus ac emosiynol.' Cloriannwch y syniad ceidwadol hwn o'r natur ddynol.
4	Faint o anghytuno sylfaenol sydd rhwng syniadau neo-ryddfrydol a syniadau neo-geidwadol y Dde Newydd?
5	Ychydig o ddylanwad a gafodd ceidwadaeth ar wleidyddiaeth Cymru ers ehangu'r bleidlais ar ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg.' Trafodwch.
6	I ba raddau y dylid cytuno â'r realwyr na ellir osgoi gwrthdaro a rhyfel rhwng gwledydd?

Wrth baratoi i lunio eich traethodau meddyliwch yn ofalus ynglŷn â'r pwyntiau canlynol:

- i) Cyn cychwyn ysgrifennu sicrhewch eich bod wedi deall beth mae'r cwestiwn yn gofyn i chi ei drafod. Mae'r traethodau gorau yn rhai sy'n meddu ar ffocws clir ac ond yn trafod deunydd sy'n berthnasol er mwyn ateb y cwestiwn.
- ii) Cymerwch amser i gynllunio eich traethawd yn ofalus. Meddyliwch pa bwyntiau gwahanol y credwch sydd angen eu trafod a meddyliwch yn ofalus ynglŷn ag ym mha drefn y dylid trafod y pwyntiau hyn. Bydd hyn yn sicrhau bod eich traethawd yn meddu ar strwythur clir ac felly yn osgoi nodweddion anffodus megis ailadrodd.
- iii) Mae'n bwysig bod eich traethawd yn cyflwyno gwybodaeth berthnasol, ond ar yr un pryd dylech ymdrechu i sicrhau nad darn disgrifiadol yn unig yw eich traethawd. Mae pob un o'r cwestiynau traethawd uchod yn rhai sydd yn gofyn i chi drafod a dadansoddi (sylwch ar y defnydd o dermau megis 'cloriannwch' neu 'i ba raddau'). O ganlyniad, mae angen i'ch traethawd fod yn ddarn sy'n pwysu a mesur gwahanol safbwyntiau a dadleuon, ochr yn ochr â chyflwyno gwybodaeth amdanynt.
- iv) Yn ogystal, mae'n bwysig bod eich traethawd yn un sy'n datblygu dadl glir mewn ymateb i'r cwestiwn. Sylwch fod y cwestiynau uchod oll yn rhai sydd mewn rhyw fodd yn gofyn i chi ddatblygu safbwynt penodol. Bydd y traethodau gorau yn datblygu'r ddadl neu'r safbwynt yma yn raddol drwy'r gwaith, yn hytrach nag aros i'w gyhoeddi'n gryno yn y paragraff clo.